I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

NOSC 202- Rhif

PRIFFYRDD

CYNLLUNIO GWLAD A THREF

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CARREGHOFA LANE, LLANYMYNECH, POWYS) 202-

Gwnaed	****** *202-*
Yn dod i rym	****** *202-*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Carreghofa Lane, Llanymynech, Powys) 202- a daw i rym ar ***** 202-.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Powys;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw Planiau Safle 1 a 2 sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Carreghofa Lane, Llanymynech, Powys) 202-" o dan y cyfeirnod qA2336712 sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S U B O R D I N A T E
L E G I S L A T I O N

NWSI 202- No.

HIGHWAYS

TOWN AND COUNTRY PLANNING

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (CARREGHOFA LANE, LLANYMYNECH, POWYS) ORDER 202-

Made	***** *202-*
Coming into Force	***** *202-*

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Carreghofa Lane, Llanymynech, Powys) Order 202- and it comes into force on ***** 202-.

Interpretation

2. In this Order—

"the Council" *("y Cyngor")* means Powys County Council;

"the deposited plan" *("y plan a adneuwyd")* means Site Plans 1 and 2 entitled "The Stopping Up of Highways (Carreghofa Lane, Llanymynech, Powys) Order 202-" with reference qA2336712 which accompanies this Order;

"the developer" *("y datblygwr")* means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

"the 1990 Act" *("Deddf 1990")* means the Town and Country Planning Act 1990.

(**1**) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Cau priffyrdd

3. Yn ddarostyngedig i erthyglau 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r priffyrdd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 3 Chwefror 2025 o dan y cyfeirnod 24/0982/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Priffyrdd newydd

4. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darnau newydd o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith a llinellau rhesog trwm ar y plan a adneuwyd, sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(1)**, i fod yn briffyrdd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdanynt.

Priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt

5. Rhaid gwneud gwelliannau, er boddhad rhesymol y Cyngor, i'r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, sy'n briffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdanynt.

Y darpariaethau sy'n angenrheidiol neu'n hwylus cyn cau priffyrdd

6. Ni chaniateir cau'r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn—

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darnau o briffyrdd i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r darnau newydd o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygwr wedi gwella'r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

Stopping up

3. Subject to articles 4, 5 and 6 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 3 February 2025 with reference number 24/0982/FUL and described in Schedule 4 to this Order.

New highways

4. There must be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple marking and bold striped hatching on the deposited plan, which are to be highway maintainable at public expense for the purposes of the Highways Act 1980(**1**) and the Council is to be the highway authority responsible for these.

Improved highways

5. There must be improvements made, to the reasonable satisfaction of the Council, to the lengths of highway as described in Schedule 3 to this Order and shown by cross hatching on the deposited plan, which are highways maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980 and the Council is to be the highway authority responsible for these.

Provisions necessary or expedient before stopping up

6. The lengths of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the lengths of highway are to be stopped up;

(b) the developer has provided the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(c) the developer has improved the lengths of highway described in Schedule 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(**1**) 1980 p. 66

(**1**) 1980 c. 66

(d) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r priffyrdd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo, ac

(e) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b), (c) a (d) wedi eu bodloni.

Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr

7. Pan fo gan ymgymerwyr statudol gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn dyddiad cau'r darnau o briffyrdd, bydd gan yr ymgymerwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig **** 202-

Enw
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

(d) the development described in Schedule 4 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the highways to allow the development to proceed, and

(e) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b), (c) and (d) are satisfied.

Statutory undertakers and providers

7. Where immediately before the date on which the lengths of highway are stopped up, there is apparatus under, in, on, over, along or across the highway belonging to statutory undertakers, the undertakers shall continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated **** 202-

Name
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

ATODLEN 1
Y darnau o briffyrdd sydd i'w cau

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben a elwir Carreghofa Lane sy'n cysylltu â'r B4398 yn ei phen dwyreiniol, yn Llanymynech, Powys, sy'n 56 o fetrau o hyd, yn 8 metr o led ac a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed (llwybr tynnu) sy'n gyfagos i Gamlas Trefaldwyn, i'r dwyrain o Carreghofa Lane, yn Llanymynech, Powys, sy'n 40 o fetrau o hyd, yn 2 fetr o led ac a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2
Y darnau o briffyrdd newydd sydd i'w darparu

1. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben a elwir Carreghofa Lane ac sy'n ffurfio pont ffordd newydd, a leolir i'r dwyrain o'r darn presennol o

SCHEDULE 1
Lengths of highway to be stopped up

1. An irregular shaped length of all purpose highway known as Carreghofa Lane that connects with the B4398 at its eastern end, in Llanymynech, Powys, with a length of 56 metres, a width of 8 metres and shown by zebra hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of footpath (towpath) adjacent to the Montgomery Canal, east of Carreghofa Lane, in Llanymynech, Powys, with a length of 40 metres, a width of 2 metres and shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

SCHEDULE 2
Lengths of new highway to be provided

1. An irregular shaped area of all purpose highway to be known as Carreghofa Lane and forming a new road bridge, situated east of the existing length of

Carreghofa Lane sydd i'w gau ac sy'n cysylltu â'r B4398 gyferbyn â'r ffordd a elwir Parc Llwyfen yn Llanymynech, Powys, sy'n 146 o fetrau o hyd, yn 10 metr o led ac a ddangosir â dotwaith ac a rhoddwyd y cyfeirnod 'C' iddi ar y plan a adneuwyd.

2. Rhan afreolaidd ei siâp o lwybr troed (llwybr tynnu) a leolir i'r gogledd o'r darn presennol o lwybr troed (llwybr tynnu) sydd i'w gau ac sy'n rhedeg o dan y bont ffordd newydd sy'n cario Carreghofa Lane dros Gamlas Trefaldwyn yn Llanymynech, Powys, sy'n 45 o fetrau o hyd, yn 2 fetr o led ac a ddangosir â llinellau rhesog trwm ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'D' iddi ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3
Y darnau o briffyrdd sydd i'w gwella

1. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben a elwir Carreghofa Lane lle y mae'r darn newydd o Carreghofa Lane yn cysylltu â lôn bresennol Carreghofa Lane yn Llanymynech, Powys, sy'n 35 o fetrau o hyd, yn 8 metr o led ac a ddangosir â chroeslinellau, ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'E' iddi ar y plan a adneuwyd.

2. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben a elwir y B4398 sy'n cysylltu â lôn bresennol Carreghofa Lane yn Llanymynech, Powys, sy'n 28 o fetrau o hyd, yn 3.5 metr o led ac a ddangosir â chroeslinellau ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'F' iddi ar y plan a adneuwyd.

3. Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed (llwybr tynnu) sy'n gyfagos i Gamlas Trefaldwyn i'r gorllewin o'r darn newydd o Carreghofa Lane sy'n cysylltu'r darn newydd o lwybr troed (llwybr tynnu) ar ei ben gorllewinol â'r llwybr troed presennol (llwybr tynnu) yn Llanymynech, Powys, sy'n 62 o fetrau o hyd, yn 1.2 metr o led ac a ddangosir â chroeslinellau ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adneuwyd.

4. Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed (llwybr tynnu) sy'n gyfagos i Gamlas Trefaldwyn i'r dwyrain o'r darn newydd o Carreghofa Lane sy'n cysylltu'r darn newydd o lwybr troed (llwybr tynnu) yn ei ben dwyreiniol â'r llwybr troed presennol (llwybr tynnu) yn Llanymynech, sy'n 15 o fetrau o hyd, yn 1.5 metr o led ac a ddangosir â chroeslinellau ac y rhoddwyd y cyfeirnod 'H' iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 4
Y datblygiad

Adeiladu pont newydd sy'n cario Carreghofa Lane dros Gamlas Trefaldwyn, tynnu'r groesfan un lefel bresennol, gwaith i ailalinio Carreghofa Lane a gosod cyffordd newydd â'r B4398, ailalinio'r gamlas a'r llwybr tynnu, a gwelliannau i faes parcio'r ardal

Carreghofa Lane to be stopped up and connecting with the B4398 opposite the road known as Parc Llwyfen in Llanymynech, Powys, with a length of 146 metres, a width of 10 metres and shown by stipple marking and given the reference 'C' on the deposited plan.

2. An irregular shaped area of footpath (towpath) situated north of the existing length of footpath (towpath) to be stopped up and running under the new road bridge carrying Carreghofa Lane over Montgomery Canal in Llanymynech, Powys, with a length of 45 metres, a width of 2 metres and shown by bold striped hatching and given the reference 'D' on the deposited plan.

SCHEDULE 3
Lengths of highway to be improved

1. An irregular shaped area of all purpose highway known as Carreghofa Lane where the new length of Carreghofa Lane connects with the existing Carreghofa Lane in Llanymynech, Powys, with a length of 35 metres, a width of 8 metres and shown by cross hatching and given the reference 'E' on the deposited plan.

2. An irregular shaped area of all purpose highway known as the B4398 that connects with the existing Carreghofa Lane in Llanymynech, Powys, with a length of 28 metres, a width of 3.5 metres and shown by cross hatching and given the reference 'F' on the deposited plan.

3. An irregular shaped length of footpath (towpath) adjacent to the Montgomery Canal west of the new length of Carreghofa Lane that connects the new length of footpath (towpath) at its western end with the existing footpath (towpath) in Llanymynech, Powys, with a length of 62 metres, a width of 1.2 metres and shown by cross hatching and given the reference 'G' on the deposited plan.

4. An irregular shaped length of footpath (towpath) adjacent to the Montgomery Canal east of the new length of Carreghofa Lane that connects the new length of footpath (towpath) at its eastern end with the existing footpath (towpath) in Llanymynech, with a length of 15 metres, a width of 1.5 metres and shown by cross hatching and given the reference 'H' on the deposited plan.

SCHEDULE 4
The development

Construction of a new bridge carrying Carreghofa Lane over the Montgomery Canal, removal of the existing at-grade crossing, works to re-align Carreghofa Lane and set out a new junction with the B4398, re-alignment of the canal and towpath, and improvements to the play area car park and laying out

chwarae a gosod man agored cyhoeddus newydd i'r gogledd o'r gamlas ynghyd â thirlunio cysylltiedig ar dir sy'n gyfagos i Gamlas Trefaldwyn, i'r dwyrain o Walls Bridge, Llanymynech, Powys.

of new public open space north of the canal together with associated landscaping at land adjoining Montgomery Canal, east of Walls Bridge, Llanymynech, Powys.